# Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

**2013 dccc 6**

## RHAN 1

CYFLWYNIAD

### 2 Safleoedd cartrefi symudol sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf

(1) Yn y Ddeddf hon ystyr "safle rheoleiddiedig" yw unrhyw dir yng Nghymru y gosodir cartref symudol arno er mwyn i bobl fyw ynddo (gan gynnwys unrhyw dir yng Nghymru a ddefnyddir ar y cyd â thir o'r fath) heblaw—

(a) safle y mae Atodlen 1 yn darparu nad yw i fod yn safle rheoleiddiedig, neu

(b) safle gwyliau.

(2) Yn y Ddeddf hon ystyr "safle gwarchodedig" yw tir sydd—

(a) yn safle rheoleiddiedig, neu

(b) yn safle a fyddai'n safle rheoleiddiedig heblaw am baragraff 11 o Atodlen 1.

(3) Yn is-adran (1) ystyr "safle gwyliau" yw safle y mae'r caniatâd cynllunio perthnasol neu'r drwydded safle ar ei gyfer o dan Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960—

(a) yn mynegi ei fod wedi ei roi neu ei bod wedi ei rhoi at ddibenion gwyliau yn unig, neu

(b) yn ei gwneud yn ofynnol bod adegau o'r flwyddyn pan na chaniateir gosod cartref symudol ar y safle i bobl fyw ynddo.

(4) Er mwyn penderfynu a yw safle'n safle gwyliau neu beidio, mae unrhyw ddarpariaeth yn y caniatâd cynllunio perthnasol neu yn nhrwydded y safle sy'n caniatáu gosod cartref symudol ar y tir i bobl fyw ynddo drwy gydol y flwyddyn i'w anwybyddu os awdurdodwyd y cartref symudol i'w feddiannu—

(a) gan y person sy'n berchennog y safle, neu

(b) gan berson a gyflogir gan y person hwnnw ond nad yw'n meddiannu'r cartref symudol o dan gytundeb y mae Rhan 4 yn gymwys iddo.

(5) Yn y Ddeddf hon ystyr "safle awdurdod lleol i Sipsiwn a Theithwyr" yw tir y mae awdurdod lleol yn berchen arno i osod cartrefi symudol arno sy'n rhoi llety i Sipsiwn a Theithwyr.